



Health and Care  
Research Wales  
Evidence Centre  
Canolfan Dystiolaeth  
Ymchwil Iechyd a  
Gofal Cymru

# Dad-feddyginiaethu cynnyrch di-glwten drwy gynllun cerdyn cymorthdaliadau: astudiaeth ansoddol o ddefnyddwyr gwasanaeth

Rhagfyr 2024

## Tîm Ymchwil Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Dr Abubakar Sha'aban (Cydymaith Ymchwil)  
Dr Francesca Mazzaschi (Cydymaith Ymchwil)  
Dr Natalie Joseph-Williams (Cyfarwyddwr Cyswllt ac Darllenydd mewn Gwella Gofal Cleifion)

*Partner Cyhoeddus*  
Beti-Jane Ingram

*Rhanddeiliaid*  
Andrew Evans (Prif Swyddog Fferyllol Llywodraeth Cymru)  
Emma Williams (Dirprwy Brif Swyddog Fferyllol Llywodreath Cymru)  
Alison Jones (Arweinydd Clinigol Dietegydd Rheoli Meddyginiaethau)

**Adolygiad wedi'i gyflwyno i'r Ganolfan Dystiolaeth: Haf 2023**

**Cyfarfod ymgynghori â Rhanddeiliad: Mehefin 2023**

**Adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi gan y Ganolfan Dystiolaeth: Rhagfyr 2024**

**Dylid dyfynnu'r adolygiad hwn fel: Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru\_Dad-feddyginiaethu cynnyrch di-glwten drwy gynllun cerdyn cymorthdaliadau: astudiaeth ansoddol o ddefnyddwyr gwasanaeth (PR0017) Rhagfyr 2024.**

**Ymwadiad:** Safbwyntiau'r awduron sy'n cael eu mynegi yn y cyhoeddiad hwn, nid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau

# Dad-feddyginiaethu cynnyrch di-glwten drwy gynllun cerdyn cymorthdaliadau: astudiaeth ansoddol o ddefnyddwyr gwasanaeth

Rhif yr adroddiad PR0017 (Rhagfyr 2024)

## Crynodeb Gweithredol

### Cefndir

Mae clefyd coeliag yn gyflwr awtoimiwnedd sy'n golygu bod angen bwyta deiet di-glwten am oes. Yng Nghymru, ceir bwyd di-glwten ar bresgripsiwn, ond mae cardiau cymorthdaliadau yn cael eu harchwilio fel dewis amgen cost-effeithiol. Roedd peilot yn 2018 a gynhaliwyd gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda yn cynnwys 123 o gyfranogwyr mewn naw o feddygfeydd teulu, ac roedd 86% yn ffafrio'r cerdyn dros bresgripsiynau oherwydd y dewis ehangach a'r cyfleustra. Fodd bynnag, bu i rai optio allan, gan nodi diffyg manteision ariannol ac argaeledd cynnyrch. Cafodd y cynllun cardiau cymorthdaliadau ei weithredu'n llawn gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda yn 2019, ond mae angen rhagor o ymchwil er mwyn asesu ei effaith ar ansawdd bywyd cleifion, ei oblygiadau economaidd, a'r rhwystrau y mae'r bobl sy'n dal i ddefnyddio presgripsiynau yn eu hwynebu.

### Nod yr astudiaeth

Nod yr astudiaeth hon yw ceisio barn defnyddwyr gwasanaeth ar ddefnyddio cardiau cymorthdaliadau yn hytrach na phresgripsiynau, gan gynnwys rhai a gafodd wahoddiad i gymryd rhan yn y peilot BIPHDd a'r rhai sydd heb gael cynnig cymryd rhan yn y cynllun hyd yma.

Yr amcanion penodol oedd archwilio:

- profiadau o ran y gwasanaethau presennol (presgripsiwn neu gerdyn cymorthdaliadau)
- effaith dulliau presennol o ran cael gafael ar fwyd di-glwten (GFF) ar fywyd bob dydd
- barn ar fanteision ac anfanteision o ran symud i gerdyn cymorthdaliadau
- rhwystrau a phethau fydd yn annog cyfranogwyr i gymryd rhan yn y cynllun cerdyn cymorthdaliadau
- prif flaenoriaethau o ran mynediad i nwyddau di-glwten - beth sy'n bwysig i'r rhan fwyaf o bobl?
- argymhellion o ran cyflwyno'r cynllun yn y dyfodol
- rhesymau dros wrthod cymryd rhan (i'r rhai wnaeth wrthod cymryd rhan yng nghynllun peilot BIPHDd)

### Dulliau

Defnyddiodd yr astudiaeth ansoddol hon gyfweiliadau Zoom lled-strwythuredig (Ebrill-Gorffennaf 2024) i geisio barn unigolion fyddai'n gymwys ar gyfer y cynllun cerdyn cymorthdaliadau yn BIPHDd a'r rhai fyddai o bosibl yn gymwys ar gyfer cynllun Cymru gyfan. Dilynodd yr ymchwilyr

drefn cyfweld i wneud yn siŵr bod y prif bynciau'n cael eu crybwyll, a chafodd pob cyfweiliad ei recordio.

## **Prif Ganfyddiadau**

Roedd yr astudiaeth hon yn cynnwys 29 o gyfranogwyr o bob un o fyrddau iechyd Cymru. O'r rhain, roedd 23 yn gymwys yn bersonol am ddarpariaeth bwyd di-glwten (GFF), ac roedd 6 yn rheoli GFF ar ran pobl eraill.

Bu i gyfranogwyr o fyrddau iechyd heb y cynllun cerdyn cymorthdaliadau a dau o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd) wnaeth wrthod y cerdyn amlygu manteision presgripsiynau, gan gynnwys arbedion ariannol, gwarant o fynediad i hanfodion a chyfleustra. Fodd bynnag, nodwyd problemau megis trefn archebu cymhleth, diffyg argaeledd cynnyrch a gwastraff bwyd.

Ymysg pobl oedd yn cymryd rhan yn y cynllun cerdyn cymorthdaliadau yn BIPHDd, roedd y rhan fwyaf yn canmol hyblygrwydd, cynnydd amrywiaeth o ran nwyddau a pha mor hawdd oedd ei ddefnyddio, gan nodi llai o straen ariannol a chynhwysiant cymdeithasol gwell. Ymysg yr heriau a nodwyd roedd cyfyngiadau o ran y cerdyn, anawsterau yn gwirio'r balans a diffyg mynediad i rai nwyddau GFF yng nghefn gwlad.

Bu i gyfranogwyr o fyrddau iechyd eraill fynegi diddordeb ym manteision y cerdyn, megis opsiynau dietegol gwell. Er hyn, codwyd pryderon ynghylch ei werth yn yr hinsawdd economaidd presennol, camddefnyddio posibl a rhwystrau mynediad gwledig. Roedd y rhan fwyaf (70%) yn dangos diddordeb mewn newid i'r cerdyn cymorthdaliadau, tra bod lleiafrif yn mynegi difaterwch neu amharodrwydd.

## **Blaenoriaethau Allweddol**

Nodwyd chwech o flaenoriaethau allweddol o ran gwella mynediad i GFF a chefnogi pobl gyda chlefyd coeliag yn well:

- 1. Mynediad rhwydd**
- 2. Amrywiaeth a rhyddid dewis**
- 3. Diet blasus ac iachus**
- 4. Cysondeb**
- 5. Cost**
- 6. Ymwybyddiaeth ac addysg well am glefyd coeliag**

[Darllenwch yr adroddiad llawn](#)



Health and Care  
Research Wales  
Evidence Centre

Canolfan Dystiolaeth  
Ymchwil Iechyd a  
Gofal Cymru

## Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Mae ein timau ymroddedig yn cydweithio â Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Iechyd, gofal cymdeithasol, sefydliadau ymchwil a'r cyhoedd i ddarparu ymchwil hanfodol i fynd i'r afael â heriau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n wynebu Cymru.

Wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae'r Ganolfan Dystiolaeth yn ateb cwestiynau allweddol i wella polisi a darpariaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Ynghyd â'n partneriaid cyd-weithio, rydym ni'n cynnal adolygiadau o dystiolaeth bresennol ac ymchwil newydd, i lywio anghenion polisi ac ymarfer, gan ganolbwyntio ar sicrhau budd y byd go iawn a budd cyhoeddus sy'n cyrraedd pawb.

Cyfarwyddwyr: Yr Athro Adrian Edwards

Cyfarwyddwyr Cyswllt Dr Alison Cooper, Dr Natalie Joseph-Williams, Dr Ruth Lewis



@tystiolaethcym



healthandcareevidence@cardiff.ac.uk



[www.researchwalesevidencecentre.co.uk/cy](http://www.researchwalesevidencecentre.co.uk/cy)